

## **SWYDD-DDISGRIFIAD** *ar gyfer* **AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU**

**D.S.** Efallai y bydd angen i'r person a benodir weithredu fel Cadeirydd/Is-gadeirydd (os caiff ei benodi gan y Pwyllgor). Byddai'r anallu i fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd yn arwain at adolygiad o'r penodiad.

### **PWRPAS Y SWYDD**

Eistedd fel aelod o Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Gweithredu fel Cadeirydd/Is-gadeirydd (os cewch eich penodi).

### **PRIF GYFRIFOLDEBAU**

- hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a llywodraethwyr sy'n cynrychioli eglwysi a rhieni;
- cynorthwyo'r Cynghorwyr, yr aelodau cyfetholedig a'r llywodraethwyr sy'n cynrychioli eglwysi a rhieni, i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau a'r protocolau lleol cysylltiedig;
- cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu adolygu Cod Ymddygiad yr Aelodau a'r protocolau lleol cysylltiedig;
- monitro ac adolygu'r modd y gweithredir Cod Ymddygiad yr Aelodau a'r protocolau lleol cysylltiedig;
- datblygu protocolau lleol er argymhelliad y Cyngor i ategu Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- gorfodi protocolau lleol a gweithredu cosbau mewn perthynas â thor-amodau fel sy'n briodol;
- cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a llywodraethwyr sy'n cynrychioli eglwysi a rhieni, ar faterion yn ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau a'r protocolau lleol cysylltiedig;

- rhoi gollyngiadau i Gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a llywodraethwyr sy'n cynrychioli eglwysi a rhieni, rhag gofynion yn ymwneud â buddiannau a bennir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau a'r protocolau lleol cysylltiedig;
- delio ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeirir at y swyddog hwnnw gan y Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru (yr Ombwdsmon);
- parhau i adolygu, diwygio a gwneud darpariaethau ychwanegol i'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Swyddogion;
- monitro Cod Ymddygiad y Swyddogion i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu a'i orfodi'n gyson ledled y Cyngor;
- cynnal trosolwg cyffredinol o faterion uniondeb sy'n deillio o adroddiadau'r Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru (yr Ombwdsmon), adroddiadau'r Swyddog Monitro ac adroddiadau Archwilio;
- arfer pob un o'r uchod mewn perthynas â'r Cyngor Cymuned a leolir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ei ardal, ac aelodau'r Cyngor Cymuned.